Galon Uchaf Residents Board – Merthyr Tydfil	Mental Health Users Forum – Bangor	Pembrokeshire Care and Repair	Safer Cardiff Ltd
George Thomas Centre for Hospice Care – Cardiff	Menter Fachwen – Caermafon	Pembrokeshire Care Society	Safer Merthyr Tydfil
Gisda – Caermafon	Merthyr Tydfil Citizens Advice Bureau	Pembrokeshire Counselling Service	Scope – Cardiff
Glyntaff Tenants and Residents Association – Pontypridd	Merthyr and the Valleys Mind	Pembrokeshire MIND	Scope – Colwyn Bay
Gofal Housing Trust – Bridgend	Mid Powys MIND	Pembrokeshire Opportunities Initiative Project	Shell Better Britain Campaign – Birmingham
Good Start for Swansea's Children	Mid Rhondda Tenants Association	Penrhinebeir Institute and Community Society – Rhondda	Shortlife Housing (Cymru) – Cardiff
Groundwork Bridgend	Monmouth Youth Project	Penrhys Partnership – Rhondda	Sir Gar Carmarthenshire Federation of Women's Institute
Groundwork Merthyr and Rhondda	Monmouthshire Mediation	Penygraig Community Project	Special Needs Advisory Project Cymru – Swansea
Cynon Taf	Montgomeryshire Citizen Advocacy	Penylan House Jewish Retirement and Nursing Home – Cardiff	Somali Advice and Information Office – Cardiff
Groundwork Wrexham	Montgomeryshire Family Crisis Centre	People in Partnership – Cardiff	South East Wales Race Equality Council
Growing Space – Newport	Mudiad Ysgolion Meithrin – Meifod	Person to Person Citizen Advocacy	South Glamorgan Council on Alcohol
Guiding Hand Development – Swansea	Mudiad Ysgolion Meithrin – Wrecsam	Rhondda Cynon Taff	South Glamorgan Playbus Association
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr – Bangor	Multiple Sclerosis Support Centre Ltd – Saltney	PontyPOOL MIND	South Glamorgan Women's Workshop
Hay and District Community Support	NACAB Wales – Cardiff	Pontypridd Citizens Advice Bureau	South Riverside Community Development Centre – Cardiff
Hay and District Dial-a-Ride	NACRO (New Careers Training) – Barry	Pontypridd and District Housing Association	South Wales Co-operative Development Association
Headway Cardiff	NACRO Cymru – Swansea	Powys Aids Line Services	South Wales Mental Health Advocacy
Holyhead Citizens Advice Bureau	National Centre for Volunteering – London	Powys Challenge	South Wales Miners' Library
Holyhead Opportunities Trust	National Childminding Association – Knighton	Powys Dance	South Pembrokeshire Action for Rural Communities
Home and Community Care Services Ltd – Conwy	National Childminding Association – Gwent	The Princes Trust – Builth Wells	SOVA – Wrexham
Home Start County Borough of Wrexham	National Childminding Association in Wales – Neath	The Prince's Trust – Mold	Springboard Youth Information Shop – Llanelli
Home Start Cwm Rhymni – Caerphilly	National Childminding Association in Wales – Wrexham	The Prince's Trust Volunteer – Milford Haven	St Briavels Centre for Child Development – Monmouth
Home Start Ely – Cardiff	National Trust – Llandudno	The Prince's Youth Business Trust – Cardiff	St David's Foundation – Newport
Hyperaction – Penarth	NCH Action for Children – Llanelli	The Prince's Youth Business Trust – Holywell	St Johns Community Hall Management Committee – Pembrokeshire
Include – Cardiff	NCN Llanrumney Community Project – Cardiff	Prism – Carmarthen	Stepping Stones – Wrexham
Inroads Cardiff Street Drugs Project	Neath MIND	Prospects – Aberystwyth	Stroke Association – Mid Wales Information Centre
John Rowley Trust – Barry	Neuadd Les y Glowlwyn Cwmlllynfell	Radnor Support Project	Swansea Citizens Advice Bureau
Knighton Community Support Project	Neuadd Y Garreg Wen – Llandydu	Ramblers' Association – Wrexham	Swansea Drugs Project (SAND)
L'Arche – Brecon	Newport Action for the Single Homeless	Rape and Sexual Abuse Line South Wales Ltd	Swansea MIND
Leonard Cheshire Foundation – Llangollen	Newport Citizens Advice Bureau	Raven House Trust – Newport	Swansea Student Community Action
Leonard Cheshire Foundation – Wolverhampton	Newport Memorial Hall – Pembrokeshire	Relate Dyfed	Swansea Womens Resource and Training Centre
Llamau Housing Society – Cardiff	Newport MIND	Relate North Wales	Swansea Young Single Homeless Project
Llandaff North, Gabalfa, Mynachdy Community Project – Cardiff	Newport Wastesavers	Relate Swansea and District	
Llandrindod Wells Volunteer Bureau	Newport Wastesavers Charitable Trust	Rest Bay Convalescent Hotel – Porthcawl	
Llanelli Crossroads Care	Newtown Volunteer Bureau	Rhayader and District Community Support	
Llanishen Good Neighbours – Cardiff	North Wales Advice and Advocacy Association		

SWISH (Body Positive) Ltd  
Switch Active Help Project – Bridgend  
South Wales Vietnamese Refugee Community Association  
Sylfaen, Cymdeithas y Plant – Caernarfon  
Taff Ely Drug Support Group – Pontypridd  
Teen Challenge Gwent  
Teulu'r Ynyd – Amlwch  
Tirion Trust Ltd – St Asaph  
Torfaen Citizen Advocacy  
Torfaen Citizens Advice Bureau  
Torfaen Community Transport  
Torfaen Women's Aid  
Tenant Participation Advisory Service (Wales) – Bangor  
Track 2000 – Cardiff  
Tredegar Development Trust  
Trigonos – Caernarfon  
United Estates Strategy Project – Pontypool  
United Welsh Housing Association  
Unllais – Bangor  
Vale of Clwyd MIND – Rhyl  
Vale of Clwyd MIND – Denbigh  
Vale of Glamorgan Women's Aid  
Vale Volunteer Bureau  
Valleys Childcare Ltd – Mountain Ash  
Valleys Furniture Recycling – Rhondda  
Valleys Race Equality Council – Pontypridd  
View / Dove Workshop – Neath  
The Vision Foundation – Ebbw Vale  
Viva Project – Treorchy  
Voluntary Action Centre Merthyr Tydfil  
Voluntary Community Service – Cardiff  
Workers Educational Association South Wales  
Welsh Border Community Transport – Queensferry  
Welsh Initiative for Supported Employment – Swansea  
Welsh School for Conductive Education – Cardiff  
Welsh Womens Aid – Aberystwyth  
West Wales Action for Mental Health  
The Wildlife Trust West Wales  
The Woodland Trust – Llanbydder  
Wrexham Citizens Advice Bureau  
Wrexham County Crossroads  
Wrexham Dolphins  
Wrexham Homework Club  
Wrexham Hospice and Cancer Support Centre

Wrexham Play Association  
Young Families Scheme – Swansea  
Young People's Project – Beddau  
Ystalyfera Development Trust  
Ystradgynlais Volunteer Centre

## General associate members

### Aelodau cysylltiol cyffredin

The Hon I Davies JP  
Peter Davies  
Mrs Marjorie Dykens OBE  
Mrs P Ann Evans  
Emma Geliot  
J H Gravell  
Hywel Griffiths  
Mrs Eurwen Holland Edwards  
Ms S M Evans  
Nerys Hughes  
Jane Hutt  
Jane Lewes  
Ms E L Nickson  
Roy Allan Norris  
A K Palmer  
Eirin Roberts  
Steve Sloan  
Jill Taylor  
Ian Cuddy Thomas  
Mrs Margaret Thorne OBE DL  
Alain Thomas  
Pam Tunley  
Sir Donald Walters  
C Williams  
Mr Alistair Wood MBE MA  
Cancer Research Wales, Cardiff  
Canolfan Sgiliau Gwynedd  
Cefn  
Co-options Ltd  
Cultural and Democracy  
Cup Arts Ltd  
Dulais Valley Partnership  
Ecco Trust  
Fundraising Company Ltd  
Gwendraeth Valley Community Development Part  
Lantra  
South Glamorgan Huntington's Disease Supp Grp  
The Living Paintings Trust  
University of Wales College, Newport

## Private associate members

### Aelodau cysylltiol preifat

Gillian Bowles  
Hwyel Roberts  
Business Trac  
Cwmnai Iaith  
Martin Price Associates  
Tricia Sharpe Consultancy

## Community Centre

Rhondda Cynon Taff County Borough Council – Leisure Services Department  
South Rhymney Valley Community Mental Health Team  
Thomas Parry Library Aberystwyth  
Torfaen County Borough Council  
University of Wales Lampeter  
Vale of Glamorgan County Council  
Valleys Arts Marketing  
Welsh Office  
Wales Association of Community and Town Councils  
Wrexham County Borough Council

## Statutory associate members

### Aelodau cysylltiol statudol

Aman Gwendaeth Partnership  
Association of Welsh Community Health Councils  
Brecon Beacons National Park  
Bridgend College Library  
Bridgend County Borough Community Health Council  
Bwrdd yr Iaith Cymraeg  
Cardiff County Library  
Central Council for Education and Training in Social Work – CCETSW  
Cymru  
The Charity Commission, Liverpool  
Coleg Harlech  
Conwy County Borough Council  
Denbighshire Social Services  
Equal Opportunities Commission  
Flintshire Community Agency  
Glan Hafren NHS Trust  
Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol  
Gwasanaeth Llyfrgell  
Health Promotion Division, National Assembly  
Housing for Wales  
'Kinora' Teifi Valley Resource Group  
National Lottery Charities Board  
National Museum of Wales  
North Wales Health Authority  
Offa Community Council  
Office for Research and Development for Health Social Care  
Open University Business School  
Powys County Council – Community Department  
Powys County Council – Youth and

# 98

adroddiad blynnyddol



**Wales Council for  
Voluntary Action**

*Supporting charities, volunteers and communities*

**Cyngor Gweithredu  
Gwirfoddol Cymru**

*Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolol yr a chymunedau*



Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau yng Nghymru ac yn ymgyrchu drostynt.

Mae CGGC yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'n 660 o aelodau, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a digwyddiadau newydd, a'u bod wedi'u harfogi gyda'r cyngor a'r canllawiau gorau sydd ar gael. Hefyd, fel mudiad o aelodau, gall CGGC drafod telerau arbennig gyda chyflenwyr gwasanaethau allanol gan wybod y bydd ein haelodau'n eu gwerthfawrogi. Gallwch weld rhagor o fanylion yn ein taflen CGGC - yn gweithio i chi.

**Swyddfa Gofrestredig - Prif swyddfa**  
Llys Ifor  
Heol Crescent  
Caerffili CF83 1XL  
ffôn 029 20855100 ffacs 029 20855101  
ebost [enquiries@wcva.org.uk](mailto:enquiries@wcva.org.uk)

**Swyddfa'r Gogledd**  
13 Ffordd Wynnstay  
Bae Colwyn  
Conwy LL29 8NB  
ffôn 01492 539800 ffacs 01492 539801  
ebost [enquiries@wcva.org.uk](mailto:enquiries@wcva.org.uk)

**Swyddfa'r Canolbarth**  
Ty Park Lane  
7 Stryd Fawr, Y Trallwng  
Powys SY21 7JP  
ffôn 01938 552379 ffacs 01938 552092  
ebost [enquiries@wcva.org.uk](mailto:enquiries@wcva.org.uk)

**Swyddfa Jigso**  
1 Rhodfa'r Gogledd  
Aberystwyth, Ceredigion  
SY23 2JH  
ffôn 01970 623255 ffacs 01970 639033  
ebost [swyddfa@jigso.org](mailto:swyddfa@jigso.org)

**Canolfan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Sector Gwirfoddol**  
Tŷ Baltig  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FH  
ffôn 029 20415560 ffacs 029 20415565  
ebost [enquiries@wcva.org.uk](mailto:enquiries@wcva.org.uk)

Rhif elusen gofrestredig 218093.  
Dyluniwyd gan The Design Stage, Bae Caerdydd

# Gair o'r gadair...

Mae tri gair newydd wedi ennill eu plwyf yn ein geirfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

*Cyfamod* (ganed Tachwedd 1998); *Cynllun* (ganed Gorffennaf 1998), a *Chynulliad* (ganed Mai 1999). Mae'r rhain yn fwy na geriau – maen nhw'n adlewyrchu newid sylweddol yn y ffordd y mae pobl Cymru'n gweld y sector gwirfoddol. Felly, beth sydd wedi deillio o'r geriau hyn? Awgrymaf ein bod wedi cael yr ateb i dri chwestiwn ac y bydd y rhain i gyd yn effeithio ar ein gweithgareddau yn y Mileniwm newydd.

Yn gyntaf, ni allwn ddefnyddio'r gair os bellach wrth sôn am y sector gwirfoddol yn cael lle arbennig ac amlwg yn y Gymru newydd. Yn rhinwedd y gwaith a wnaed i gynhyrchu'r Cyfamod, ac i gynnwys y Cynllun yn Neddf Llywodraeth Cymru, mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i fwrw ymlaen i roi ei le dyledus i'r sector gwirfoddol ym mywyd Cymru. Nid mater o os yw hi bellach ond *pa bryd?* a *sut?*

Yn ail, gallwn ateb y cwestiwn *pa bryd?* Nawr! Mae llawer o waith wedi'i wneud eisoes ar lefel leol a chymunedol i gyflynwyr Cyfamod a sicrhau cytundeb gydag awdurdodau lleol, cyrrf ym maes iechyd a mudiadau eraill sy'n effeithio ar ein bywydau. Gwyddom na allwn ni wneud popeth y dymunwn ei wneud – mae cymaint o angen yn cymdeithas; cymaint o newidiadau, a chymaint o bethau i'n herio. Mae'r rhain i gyd yn curu ar ddrws ffrynt y sector gwirfoddol, ym mhob pentref a thref. Bydd hi'n anodd sicrhau'r amser a'r ymdrech i gael cytundeb ar y

Cyfamodau a'u defnyddio a'u hadolygu. Ond bydd rhaid i ni fod yn ddewr ac yn greadigol, gan geisio gweithio bob amser gyda'r dyfodol mewn golwg fel bod y drws ar agor a'r croeso'n gynnes.

Yn drydydd, mae'r cwestiwn *sut?* Un elfen hanfodol o ddull gweithio CGGC yw'r ymrwymiad i ymgynghori gyda phob un o fuddiannau'r sector gwirfoddol. Bydd y Cynllun yn mynnu ein bod ni'n mynd i'r afael â'r gofyniad hwn gydag egni.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi newid ein cyfansoddiad i gynnwys cynrychiolwyr o bob sector, yn aelodau ac yn rhan o'n Pwyllgor Gwaith. Ein tagf ni i gyd yw sicrhau bod gennym ffyrdd o wrando ar ein pobl, a bod yn barod i ystyried safbwytiau anarchaidd yn ogystal â safbwytiau mwy traddodiadol. Ym mhob maes lle bydd pobl yn ymdrechu, gwelir bod angen catalydd i hau dulliau newydd o weithio. Mae angen i ni ymateb i ymrwymiad y Cynulliad i ddulliau gweithio sy'n ddemocratiaidd, yn gynhwysol, yn hyblyg, yn ymatebol, yn dryloyw ac yn atebol.

A dyna ddiweddu y bregeth am flwyddyn arall. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi'r hyder i ni gamu i 2000 AD gan goleddu'r tri chysyniad oesol sy'n sail i waith elusengar – Ffydd, Gobaith a Chariad.

**Marjorie Dykins OBE, Cadeirydd**



# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Bob munud o bob diwrnod, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn, ym mhob cymuned yng Nghymru, bydd unigolion a mudiadau'n gweithio yn eu cymunedau a throstynt fel gwirfoddolwyr.

Mae'r bobl sy'n dewis gwneud y gwaith hwn o'u gwirfodd yn cyfrannu mewn sawl ffordd – mewn grwpiau hunan-gymorth neu drwy redeg y tîm pêl-droed lleol efallai; ond gyda'i gilydd, nhw yw sylfaen a hanfod ein gymdeithas.

Ac wrth iddi ddod yn haws anwybyddu'r gymdeithas honno oherwydd technoleg, mae'r ffordd y byddwn ni'n creu perthynas â'n gilydd yn dod yn fwfywffig – sut y byddwn yn ein cynnwys ni'n hunain yn y gymdeithas a sut y byddwn yn estyn allan i'r rheiny sydd heb eu cynnwys.

Yn y gorffennol, mae ideolegau gwleidyddol wedi gweld gweithredu gwirfoddol fel ail gwael i ddarpariaeth gan y wladwriaeth neu gan y sector preifat, yn rhywbeth i'w ffrwyno a'i reoli, neu i'w gammol ond i'w anwybyddu.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r hinsawdd wedi newid ac mae swyddogaeth y sector gwirfoddol fel trydydd partner, ochr yn ochr â busnes a llywodraeth leol, yn cael ei chydnewabod.


Adlewyrchir hyn yn y ffait fod gofyn i'r Cynulliad lunio cynlluniau i weithio gyda'r tri phrif bartner *sylfaenol*, a dylai hyn roi sedd i ni wrth y bwrdd, yn hytrach na'n gadael yn curu wrth ddrws nad oes neb yn ei ateb.

Mae'n gosod her i'r sector.

- A all drefnu ei hun i wneud hyn yn effeithiol?
- A all wireddu'i enw da am arloesi a chyfranogi?
- A oes ganddo'r gallu a'r sgiliau i newid cyfeiriad yn ei swyddogaeth? A all newid yn ddigon cyflym?
- A all sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n sicrach ac yn decach i'r trydydd sector?

Cwestiynau'r i'r flwyddyn nesaf yw'r rhain, ond dengys yr adroddiad hwn sut y mae CGGC a'r sector yn paratoi ar gyfer wynebu'r sialensau hyn.

**Graham Benfield**  
**Cyfarwyddwr**





Mae CGGC yn ymfalchiô mai ef yw'r llais sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Tra'n creu perthynas gyda llunwyr polisiau a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, mae bob amser yn cofio mai at ei aelodau a'r trydydd sector drwyddo draw y mae ei brif gyfrifoldeb.

Mae sicrhau ei fod bob amser yn ymwybodol o anghenion y sector, bod yr aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau yn y dyfodol, ei fod yn ymgynghori ac yn ymgyrchu o blaids gwelliannau'n elfennau canolog o'i waith.

## Ymchwil

Mae gwybodaeth am y sector a'i gyfraniad yn hollbwysig. Mae'n goleuo'r drefn gwneud penderfyniadau ac yn gymorth i gynnllunio. Mae gweithgareddau ymchwil CGGC yn gymorth i weld y sector gwirfoddol yn ei gyddestun: mae'n sefydlu'r llinell sylfaen, yn dweud wrthym o le rydyn ni'n dod ac yn ein helpu i weld i le rydyn ni'n mynd: gan weld y dyfodol o fewn cyddestun Cymru gyfoes. Mae dyfodiad y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud swyddogaeth ymchwil a gwybodaeth CGGC yn bwysicach nag erioed.

Hon oedd blwyddyn gyntaf prosiect dwy flynedd Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol i ddatblygu gallu'r sector i wneud gwaith ymchwil. Fe'i cynhalwyd ar y cyd gyda'n chwaer-fudiadau yn y tair gwlad arall, ac mae'r gwaith hyd yn hyn wedi cynnwys cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau a sefydlu rhwydwaith ymchwilwyr i'r sector gwirfoddol, gan gynnwys Rhestr o ymchwilwyr y sector gwirfoddol a chylchlythyr rheolaidd.

Afraid yw dweud bod y sector yn tyfu. Yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw bod 25,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf,

mae'r gwerth a roddwyd ar gyfraniad y sector wedi cynyddu, ac mae gwaith ymchwil diweddaraf CGGC yn dangos bod cynydd ar droed wrth ddadansoddi'r ffifyrau'n fanylach.

- Ymddengys fod gwirfoddolwyr yn cyfrannu gwerth £3.4 miliwn y flwyddyn drwy eu gwaith.
- Mae sector gwirfoddol Cymru'n ennill incwm blynnyddol o £570 miliwn.
- Mae bron i 13,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector gwirfoddol: dros 6,300 ohonynt yn amser-llawn a thros 6,500 o staff rhan amser.
- Mae dros 1.86 miliwn o wirfoddolwyr yng Nghymru: 1.09 miliwn yn rhoi o'u hamser ar ffur gweithgareddau gwirfoddol ffurfiol ac 1.68 miliwn yn gweithio yn eu cymunedau mewn ffyrdd eraill.
- Am bob £1 o gyllid statudol, mae'r sector gwirfoddol yn cyfrannu £40, gan gynnwys gwerth gwirfoddoli.



# Aelodau: Ardal ffyniant

Yn ystod 1998/99 cynyddodd nifer yr aelodau o 600 i 660 ac mae'r strategaethau a luniwyd i sicrhau bod proffil yr aelodaeth yn fwy cynrychioladol o'r sector yn dal i ddwyn ffrwyth. Newidiwyd dogfen lywodraethu CCGC i ganiatáu ar gyfer cynnydd yn nifer aelodau'r pwylgor gwaith ac i ychwanegu categori aelodaeth ychwanegol – aelod cysylltiol cyffredinol.

## Diwallu anghenion ein haelodau

Ym 1998/99

- Ymatebodd CCGC i bron i 8,500 o ymholiadau o bob rhan o'r sector;
- Paratowyd a dosbarthwyd 123 tudalen o wybodaeth Gyfredol a oedd yn cynnwys 566 o eitemau;
- Ymdriniwyd â 432 o ymholiadau am gyngor cyffredinol ar gyllido;
- Rhoddodd CCGC bron i £6 miliwn mewn grantiau i 301 o wahanol grwpiau.



## ... a lle byddai'r sector gwirfoddol heb wirfoddolwyr?

### Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Yn sgil diddordeb y llywodraeth, datblygwyd rhaglen wirfoddoli newydd i bobl 16 – 24 oed ac esgorwyd ar strategaeth i annog pobl i gyfrannu mwy i'w cymunedau. Enwebwyd CCGC fel y prif bartner mewn consortiwm i reoli Gwirfoddolwyr y Mileniwm yng Nghymru ar y cyd â Chyngor Ieuenctid Cymru a Chyngor Gwasanaeth Ieuenctid Gwirfoddol Cymru. Cafwyd y rownd gofrestro gyntaf ym mis Mawrth a rhoddwyd y grantiau cyntaf i bosiectau ieuenctid a'r partneriaid a oedd gyfrifol am eu cyflwyno ym mis Mehafin 1999.

## Rhywdweithiau a chynghareiriau

Cafodd Partneriaeth Wifoddol Cymru flwyddyn brysur pan lansiwyd:

- Polisi Enghreifftiol ar gyfer Gwirfoddoli yn y Gwasanaeth lechyd;
- polisi Cyfamod ar gyfer gwirfoddoli;
- polisi enghreifftiol drafft i awdurdodau lleol a strategaeth ddrfft i wifoddolwyr hŷn;
- cyllid i gynnwyl gŵyl wifoddoli i nodi Wythnos Gwirfoddolwyr 2000.

Parhawyd i gefnogi'r seilwaith gwirfoddoli drwy gyllido pedair canolfan wifoddoli arall drwy gyfrwng Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru CGGC, a chyfres o seminarau i ddatblygu gwaith y canolfannau.

## Cadw llygad barcud

Mae CGGC wedi bod yn weithgar ym maes deddfwriaeth er mwyn ceisio lleddfu effaith Ddeddf yr Heddlu, y Ddeddf Amddiffyn Plant a'r Ddeddf Isafswm Cyflog. Mae sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr a chleientau ym maes gwirfoddoli'n debygol o fod yn un o'r prif themâu eleni.

## Trosglwyddo'r neges: Prosiect gwirfoddoli'r cyfryngau

Wrth i brosiect Gwirfoddoli'r cyfryngau dynnu tua'i derfyn, cafwyd cefnogaeth cerddorion roc, sbiniwyr straeon a iogwrif ffrwydrol.

Cafwyd cymorth hefyd gan Doli, band sy'n prysur wneud enw iddo'i hun o Gaerfyrddin. Fe fu'r rhaian yn helpu i lansio Cardiau'r Ifanc – negeseuon slic a osodir mewn tafarnau a chlybiau i berswadio pobl ifanc i roi o'u hamser at achosion da.



## Cyswllt Cyfryngau Cymru

Dim ond un o'r cwmniau newyddion a fu'n bartner i Cyswllt Cyfryngau Cymru oedd HTV yn ystod ail flwyddyn eu hymgyrch i ddod â grwpiau gwirfoddoli a newyddiadurwyr at ei gilydd. Cynhaliodd y BBC ym Mangor gynhadledd Iwyddiannus; noddodd S4C ac HTV daflen ar y cyd ar gyfer newyddiadurwyr; ac agorodd y Western Mail a'r Echo eu drysau yn Thomson House, Caerdydd ar gyfer dau weithdy.



# Gwneud yn siwr bod yr arian yn cyrraedd y mannau iawn: Darparu adnoddau ar gyfer y sector

Mae CGGC wedi helpu dros 300 o fudiadau lleol, ym mhob rhan o Gymru, i gael yr arian sydd ei angen arnynt i gyflawni eu hamcanion. Mae rhagor eto wedi elwa o'r cyngor a'r gefnogaeth a gawsant wrth iddynt geisio cyllid o ffynonellau eraill.

## Grantiau bychain

Gall symiau bychain wneud gwahaniaeth mawr, a dim ond i brofi hynny eleni, rhoddwyd 79 o grantiau bychain cyfanswm o £26,870 i fudiadau ledled Cymru. Bu'r dyfarniadau hyn yn help i dalu am deganau i grwpiau chwarae, gardd synhwyrau i blant gyda nam ar eu golwg, offer TG i glybiau ar ôl ysgol, offer gardd i'r henoed a phobl anabl, llestri i glybiau cinio ac offer lleddfu poen i bobl sy'n dioddef o ganser.


## Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru

Mae'r gronfa hon yn cefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn datblygu gwirfoddoli ym mhob rhan o Gymru. Eleni, rhoddwyd 82 o grantiau, gwerth cyfanswm o £674,774, i gefnogi £3,800 o wirfoddolwyr. Dyfarnwyd deg ar hugain o'r rhain i Swyddfeydd Gwirfoddolwyr.

## Darparu adnoddau ar gyfer gwirfoddoli ar lefel lleol: y cynllun gwasanaethau gwirfoddol lleol

Grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol yw calon cymunedau byw. Mae'n hollbwysig bod grwpiau lleol yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth ymarferol a bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli'n dda. Mae partneriaeth CGGC gyda'r rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol sirol (CGS) yn sicrhau bod y cymorth hwn ar gael ledled Cymru. Trwy gyfrwng cynllun y Gwasanaethau Gwirfoddol Lleol (CGL), bydd CGGC yn darparu arian craidd ar gyfer y CGS ar sail safonau gwasanaeth sylfaenol sy'n nodi pa fath o help o gall grwpiau lleol ddisgwyl ei gael.

Gydag aelodaeth o dros 3,000 o grwpiau i gyd, a rhwydweithiau sy'n taenu dros 10,000 o fudiadau, mae'r CGS yn darparu seilwaith cefnogi eang i grwpiau gwirfoddol a chymunedol.



## Cydweithio

Mae'r bartneriaeth rhwng CGGC a'r CGS yn un o nodweddion unigryw seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru, ac mae'n dal i fod yn un o'r elfennau allweddol o ran sicrhau llwyddiant a nerth cynyddol y sector. Rhododd CGGC gymorth i'r CGS i ymateb i'r agenda gyhoeddus sy'n prysur ehangu, a chefnogaeth iddyd geisio ehangu eu gwasanaethau. Mae hefyd wedi:

- pwysón llwyddiannus i sicrhau cynydd yng nghyllid y Swyddfa Gymreig ar gyfer cynllun y GGLI – gan arwain at gynnydd o 5% ar gyfer 1999-00 i dros £1.7m.
- cael gafael ar arian ychwanegol ar gyfer y CGS gan Ewrop – dros £200,000 yn ystod y flwyddyn a thros £450,000 ar gyfer 1999/00 i gefnogi gwaith newydd ac ymestynnol.



## Cynllun Grantiau Iechyd Meddwl Lleol

Mae 38 o ddarparwyr gwasanaeth iechyd meddwl lleol a 9 o wasanaethau datblygu iechyd meddwl yn parhau i wneud eu gwaith pwysig, diolch i bron i £1.6m o nawdd oddi wrth y cynllun hwn sydd gan CGGC. Fodd bynnag, roedd hi'n destun siom bod yr arian a neilltuwyd ar gyfer rownd ddiweddaraf y cynllun hwn wedi'i rewi. Nid oedd modd ariannu llawer o wasanaethau newydd y mae mawr eu hangen, a bydd CGGC yn dal i bwysio er mwyn sicrhau adnoddau digonol.

## Ewrop

Mae tîm Ewropeidd CGGC yn helpu mudiadau gwirfoddol i ddylanwadu ar gynlluniau Ewrop, i gyfranogi ynddynt a manteisio arnynt – yn enwedig cronfeydd strwythurol Ewrop.

## Adeiladu cymunedau cryfach

Sicrhawyd cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn i CGGC gynnal cynllun grantiau bychain gyda'r nod o feithrin sgiliau mewn cymunedau gwledig. Hefyd, sefydlwyd dau gynllun grantiau bychain gydag arian gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn Ne Cymru ac yng nghefn gwlad dan y teitl Adeiladu cymunedau cryfach. Gyda'r nod o ddatblygu potensial mudiadau gwirfoddol bychain, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dyfarmwyd cyfanswm o dros £125,000 mewn grantiau i 33 o brosiectau.



## Dweud eich dweud

Cynorthwyodd CGGC yn y gwaith o sicrhau dros £12 miliwn dan y rhaglenni Ewrop ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cynnal gan fudiadau gwirfoddol, a pharhaodd i gynrychioli'r sector ar bwylgorau sy'n gwneud penderfyniadau ac yn monitro holl raglenni'r gronfa strwythurol yng Nghymru. Defnyddiwyd argymhellion ar sail gwaith ymchwil CGGC hefyd i osod blaenorïaethau ar gyfer dyrannu nawdd datblygu potensial dan raglen Amcan 3.

## Tasglu Ewrop

Mae CGGC yn aelod o Dasglu Ewrop i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer defnyddio cronfeydd Ewrop a chronfeydd eraill. Fel aelod o'r partneriaethau Amcan 1, 2 a 3 sy'n cynhyrchu'r rhaglenni newydd, cymerodd CGGC yr awenau hefyd wrth ysgrifennu rhannau o'r rhaglenni ar ddatblygu potensial cymunedau a chynwysoldeb cymdeithasol.




*"Heb gymorth CGGC, ni fyddai ein cynhalwr wedi cael yr hyfforddiant ychwanegol am glefydau penodol sy'n hanfodol wrth ddarparu gwasanaeth mewn ardal wledig." Angela Roberts, Cydlynnydd Crossroads Brycheiniog*

# Rhywbeth – a rhywle – i'w ddathlu

Diolch i Cynnal – Canolfannau Bro i'r Milflwydd yng Nghymru, bydd llawer o froydd Cymru'n gallu dathlu'r mileniwm newydd yn eu neuadd bentref newydd sbon neu mewn neuadd sydd wedi'i hadnewyddu. Cafodd y rheiny a fu'n llwyddiannus yn Rownd un cynllun Cynnal eu harian eleni, ac mae'r gwaith adeiladu ac adnewyddu bellach wedi hen ddechrau. Bydd neuaddau Rownd dau yn gallu cwblhau eu prosiectau hwythau yn ystod blwyddyn gynta'r Mileniwm newydd.,

Drwy gyfrwng Cynnal, parhaodd CGGC i sicrhau buddsoddiad yn y cynllun cyfalaf cymunedol uchelgeisiol hwn sy'n werth £10 miliwn, dan nawdd Comisiwn y Mileniwm a chyda chefnogaeth y Swyddfa Gymreig.


Mae cyfanswm o 48 o neuaddau bellach yn gweld ymdrechion blynnyddoedd o lafur caled yn dwy ffrwyth. O'r rhain, adeiladwyd deunaw o neuaddau newydd a phrosiectau estym ac adnewyddu oedd y lleill. Mae'r cynlluniau'n amrywio o waith adnewyddu cymharol fach yn costio £83,000 i £600,000 am un neuadd newydd sbon.



## Estyn

Mae Estyn yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor i bobl ar adeiladau cymunedol ledled Cymru. Ym 1998/99:

- Ymatebodd Estyn i dros 350 o ymholiadau;
- cyhoeddodd a dosbarthodd 10 o daflenni gwybodaeth newydd a 5 rhifyn o gylchlythyd Estyn



## Testun llawenydd – rhai o'r llwyddiannau

- Arbedodd un neuadd £400 ar ei phremiwm yswiriant wedi cael gwybodaeth gan Estyn.
- Y tro cyntaf i Neuadd Llangennyyd ym Mhenrhyn Gŵyr glywed am y Dreth Tirleiniwi oedd yn Fforwm Cenedlaethol Estyn yng Ngharno; Penderfynwyd mynd ar drywydd grant ac erbyn hyn maent wedi cael dros £20,000.

## Gobaith newydd i hen gapeli

Mae gweld hen gapeli gweigion yn mynd â'u pen iddynt yn destun pryer mawr. Dylai ymddiriedolaeth newydd a sefydlwyd gan CGGC gyda nawdd gan CADW helpu i ateb gweddiau pobl sy'n bryderus yngylch y posiblwydd o golli'n treftadaeth bensaerniol a diwylliannol wrth i'r niferoedd sy'n mynchyur capeli edwino.

Mae Ymddiriedolaeth Capeli Cymru'n gobethio anadlu bywyd newydd i adeiladau crefyddol, a bydd y corff hwn yn cynnig cyngor a gwybodaeth. Penodwyd yr ymddiriedolwyr cyntaf ac mae'r ymddiriedolaeth yn paratoi i ledui hadenydd a sefyll ar ei thraed ei hun, yn annibynnol oddi ar CGGC.

# ... a phan fydd gennym rywbeth i'w ddweud

Mae sicrhau bod llais y sector gwirfoddol yn cael ei glywed yn rhan o bob agwedd fwy neu lai ar waith CGGC ac mae cyfathrebu ein neges yn uniongyrchol drwy'n gwaith gyda'r wasg, drwy gyfrwng digwyddiadau a'n cyhoeddiadau yn rhan o'n gweithgareddau beunyddiol.

## Rhwydwaith Cymru

... yw wyneb cyfarwydd CGGC i nifer o fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.

Cylchgrawn misol yw hwn, sy'n llawn newydion a gwybodaeth ac mae'n cyfleu'r neges ar ffurf hwylus i'n haeldodau. Mae'n cael ei ddosbarthu hefyd i AS, AC, cyrff statudol ac unigolion – cyfanswm o 1000 o gopiau bob mis.

## Y gynhadledd flynyddol

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol CGGC yn Llandudno ym mis Tachwedd 1998 ac roedd yn canolbwytio ar un o'r geiriau 'diweddaraf' – Partneriaeth. Roedd y pwyslais ar sut i sicrhau bod y rhethreg yn cael ei gwireddu yn y Gymru Newydd. Roedd pawb yn sylweddoli bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Cyfamod yn cynnig cyfleoedd, a chroesawyd y ffaith hefyd fod cyfle i ffeirio syniadau a phrofiadau gyda chydweithwyr yn y gwledydd Celtaidd eraill.

*Cynadleddwyr yn y gynhadledd flynyddol yn Llandudno ym mis Tachwedd 1998*




## Sbardun yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Eleni, gweylwyd aileni – neu o leiaf ailfrandio'r pafiliwn gweithredu gwirfoddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, pan lansiwyd ef dan ei enw a'i logo newydd – Sbardun: canolfan gweithredu gwirfoddol yr Eisteddfod. Mae Sbardun yn rhoi hwb ac yn cymell rhywun i weithredu ac felly mae'r gair yn ddisgrifiad addas ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru ac yn ysbrydoli CGGC i annog a hyrwyddo gwaith y sector drwyddo draw yn ystod yr wyl.

**Capsiwn: Cadeirydd S4C, Elan Closs Stephens gyda Marjorie Dykins wrth lansio Sbardun**

## Cyhoeddiadau

Mae paratoi cyhoeddiadau a chanllawiau ymarferol wedi bod yn flaenoriaeth o bwys gennym erioed. Nid oedd eleni'n eithriad gyda 13 arall yn dod o'r wasg.



Gwirfoddoli  
Volunteering

Diddordeb mewn gwirfoddoli?  
Interested in volunteering?

Mae ffurflen cyffredinol ddiolchol ar ymddyddiau  
Cyngor Gwirfoddoli Ddiolchol Cymru a  
WACVC.  
Volunteering opportunities forms are available  
from Wales Council for Voluntary Action and  
WACVC's website.



## Cyfryngau

Yn ystod 1998/99, cyhoeddwyd 55 datganiad i'r wasg, gan arwain at o leiaf 400 o eitemau'n cael sylw yn y cyfryngau print a'r cyfryngau darlledu. Roedd y pynciau'n cynnwys newyddion da yn ogystal â newyddion drwg, ac roedden yn amrywio o gyllid Ewrop, pryderon ynghyrch newidiadau arfaethedig i'r Cyllun Datblygu Strategol, i sialensau neu ddatblygiadau newydd gyda golwg ar brosiectau CGGC.

*Capsiwn: Stodin Sulwyn Radio Cymru'n cael ei ddarlledu o Sbardun yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol*



## Hyfforddi

Mae'n hanfodol sicrhau bod yr hyfforddiant sydd ar gael yn diwallu anghenion y sector. Arwydd o'r oes oedd bod ein rhaglen hyfforddi ar gyfer 1998/99 yn cynnwys pum cwrs newydd:

- Lobio yn Oes y Cynulliad
- Rheoli prosiectau
- Rheoli straen meddwl
- Rheoli amser
- Hunan-hyder a chynnal trafodaethau

Lansiwyd y basdata o hyfforddwyr ac ymgynghorwyr, gan roi gwybodaeth i fudiadau gwirfoddol i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion hyfforddi a datblygu. Mae defnyddio'r basdata hefyd wedi gwella'r ffordd y mae CGGC yn dethol ymgynghorwyr a hyfforddwyr ar gyfer ein gwaith ni'n hunain.

## CHC

Mae CGGC hefyd yn ymgymryd â phrosiectau CHC (Corff Hyfforddi Cenedlaethol) y Sector Gwirfoddol.

Roedd gweithgareddau'r CHC ym 1998/99 yn cynnwys ymchwil ar anghenion datblygu rheolwyr, cynadleddau a seminarau, papurau drwy'r post a chyhoeddiadau.



## Prosiect cynlluniau cymunedol

Bu dros 150 o fudiadau sydd â'u gwreiddiau yn y gymuned yn rhan o'r prosiect hwn a noddwyd gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol.

Cynhalwyd gweithdai a chynhadleddau ar ddatblygu potensial, cylido ac adnoddau. Yn ogystal â chynhyrchu tri llawlyfr arferion da ar Adeiladu Cymunedau, bu'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r grwp Economi Cymdeithasol i sicrhau bod economi cymdeithasol yn cael ei gynnwys ar agenda'r Swyddfa Gymreig ac Awdurdod Datblygu Cymru.



NATIONAL LOTTERY  
CHARITIES BOARD  
Wales



Grwp Chwarae Blaenllechau



Dydyn nhw heb gael eu tships eto!! Siop Sglodion Gymunedol Blaenllechau

## Jigso

Mae Jigso'n  
wynebu'r  
newidiadau  
mwyaf ym  
mywyd  
cyhoeddus  
Cymru ers  
canrif ac wedi



parhau gyda'i raglen o roi  
grantiau, hyfforddi a hyrwyddo. Fel partneriaeth,  
ein nod allweddol fu hyrwyddo amrywiaeth o  
ddulliau cyfranogol, gan hyrwyddo arferion da yn y  
meysydd hynny, er mwyn eu defnyddio i feithrin  
cyfranogiad ar bob lefel o lywodraethu.

*Pobl fu'n rhan o Ymgyrch Dyfodol 2020  
yn codi llaw yn Ninbych y Pysgod*



# Agosáu at y Cynulliad newydd: y Cyfamod a'r Cynllun

Un o briod nodweddion gwaith polisi CGGC  
eleni oedd y Cyfamod rhwng y Sector  
Gwirfoddol a'r Swyddfa Gymreig a'r  
paratoadau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.



Lansiwyd y Cyfamod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng nghynhadledd CGGC ar ôl ymgynghori eang. Mae'n nodi gwerthoedd cytun llywodraeth a'r sector gwirfoddol a'u disgwyliadau a'u dyletswyddau gyda golwg ar ddatblygu polisi a chynrychiolaeth, gweithio mewn partneriaeth a noddi gweinyddiaeth. Cynhyrchwyd dogfennau cefnogol yn nodi'r trefniadau hyn ar ymgynghori, gwirfoddoli, partneriaeth a chyllido.

Y Cyfamod fu'r sbardun i ddatblygu cyfamodau lleol gydag awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Lechyd a chwangos cenedlaethol. Mae'n nodi cyfnod newydd pwysig yn y berthynas rhwng y sector gwirfoddol a'r sector statudol yng Nghymru.

Gwnaeth Fforwm y Swyddfa Gymreig – Sector Gwirfoddol waith pwysig wrth ddrafftio'r Cyfamod a pharatoi Cynllun y Sector Gwirfoddol. Daeth yn gyfrwng gwerthfawr ar gyfer datrys materion sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol.




Compact between  
the Government  
and the Voluntary  
Sector in Wales



compact  
a partnership

## **Y sector gwirfoddol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru**

Sicrhodd CGGC fesur yn Nedd Llywodraeth Cymru sy'n nodi bod rhaid i'r Cynulliad gael cynllun yn nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo buddiannau'r cyrff gwirfoddol perthnasol.



Dyma'r tro cyntaf i ni gael ymrwymiad yn y gyfraith bod y llywodraeth yn mynd i weithio gyda'r sector gwirfoddol.


Er mwyn sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal unwaith y bydd y Cynulliad yn dechrau ar ei waith, sicrhadau CGGC bod pob darpar aelod o'r Cynulliad yn gwybod beth oedd dymuniadau'r sector gwirfoddol. Yn gefn i'r rhaglen o sesiynau gwybodaeth a digwyddiadau arbennig a gynhalwyd, cyhoeddwyd *Ein cynllun i wella bywyd*.

### Datganiad polisi CGGC ar y Cynulliad Cenedlaethol yw .... ....

Ein Cynllun i wella bywyd.

Mae'n nodi'r her i Aelodau'r Cynulliad ac yn galw am weithredu gyda golwg ar:

- Fuddsoddi yn y sector gwirfoddol;
- ymrwymiad i bartneriaeth wirioneddol gyda'r Cynulliad a'n bod yn cael ein cydnabod yn bartner cymdeithasol allweddol;
- cryfhau'r berthynas gyda llywodraeth leol;
- adeiladu cymunedau;
- agor mwyo ddrysau ar nawdd o Ewrop;
- cefnogi cymunedau gwledig;
- hyrwyddo a datblygu gwirfoddoli.



### Canolfan y Cynulliad a'r Sector Gwirfoddol

Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, esgorodd CGGC ar gynllun arall eto. Nod Canolfan y Cynulliad a'r Sector Gwirfoddol yn Nhŷ Baltic Caerdydd, sy'n cael ei noddi gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol, yw sicrhau bod mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn cael y budd gorau o'r Cynulliad, ac yn cadw'u rhan hwy o'r fargen gynwysoldeb.



Tŷ Baltic, cartref  
Canolfan y Cynlliad  
a'r Sector Gwirfoddol

## **Iechyd a gofal cymdeithasol**


Bu CGGC yn gweithio'n glos gyda'r Rhwydwaith Gofal Cymdeithasol a CGS ar ddatblygiadau o bwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. Rhai o'r materion allweddol oedd

- Cyfranogi yn y grwp a oedd yn goruchwyllo ad-drefnu ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd, datblygu'r Strategaeth Hybu Iechyd, Cynllun Corfforaethol y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru a Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru;
- sicrhau cynrychiolaeth i'r sector gwirfoddol drwy gyfrwng y CGS ar Grwpiau Iechyd Lleol;
- ymateb i ymgynghori ar Iechyd Gwell – Cymru Well, Cyfarwyddad ar Raglenni Gwella Iechyd, Cynnwys y Cyhoedd, Sefydlu Grwpiau Iechyd Lleol, Cydweithio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, y papur gwyn ar y gwasanaethau cymdeithasol.

## **Dysgu gydol Oes**

Ymgynghorwyd ar y Papur Gwydd Rhywbeth i Bawb yw Dysgu, ac mae gwaith polisi yn y maes hwn wedi dylanwadu ar Gynllun Gweithredu Addysg a

Hyfforddiant i Gymru, er mwyn cynnwys cydnabyddiaeth i swyddogaeth mudiadau gwirfoddol a chymunedol o ran darparu cyfleoedd hyfforddi ac addysg.



## Llywodraeth Leol

Parhawyd i wella a datblygu'r cynllun Cyflawni cydamlanion. Yn sgil anfon llythyr ar y cyd at bob awdurdod lleol, gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, CLILC a CGGC, chwistrellwyd momentwm newydd i'r cynllun. Dylai hyn arwain at lunio cyfamodau lleol ar sail Cyflawni cydamlanion erbyn Hydref 1999.

Llwyddwyd i sicrhau presenoldeb y sector gwirfoddol ar y gweithgorau sy'n bwrw ymlaen gyda'r agenda gwerth gorau a Moderneiddio Llywodraeth Leol.

## Cryfhau gweithredu gwirfoddol mewn ardaloedd gwledig

Mae gweithredu gwirfoddol yn rhan hanfodol o fywyd ardaloedd gwledig. Mae'n help i sicrhau cydlyniad cymdeithasol a diwylliannol ac mae ganddo swyddogaeth hanfodol wrth ddarparu llawer o wasanaethau.

Eleni, mae Rhwydwaith Gwledig CGGC wedi rhoi cyfle i'r sawl sy'n cyfrannu'n frwd drwy'r mudiadau gwirfoddol yng nghefn gwlaid gyfarfod â phobl eraill o wahanol fudiadau ledled Cymru. Roedd y gwaith mewn ardaloedd gwledig eleni'n cynnwys sefydlu pwyllogr gwledig i oleuo, goruchwyllo a chefnogi gwaith CGGC, ac i sicrhau cynrychiolaeth aelodau craidd ar y Bartneriaeth Wledig i Gymru.

## Datblygu Cynaliadwy

Daeth CGGC â nifer o wahanol fudiadau ynghyd mewn Fforwm Datblygu Cynaliadwy i lunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried wrth lunio'i gynllun datblygu cynaliadwy.

## Yr iaith Gymraeg

Mae CGGC yn dal i helpu amrywiaeth eang o grwpiau i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg a lansiwyd pecyn hyfforddi ar gyfer rheoli mewn sefyllfa ddwyieithog: *Dwy iaith ar waith*.

Cynhyrchwyd adroddiad manwl ar gyfraniad y prosiect at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

*Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Sbardun, Canolfan Gweithredu Gwirfoddol yr Eisteddfod gyda Carol Owen CGGC.*



## **Y Fargen Newydd i bobl ifanc: Opsiwn y Sector Gwirfoddol**

Mae dewis y sector gwirfoddol o'r Fargen Newydd yng Ngwynedd, Conwy, Dinbych, Flint a Wrecsam yn cael ei gyflwyno gan Gonsortiwm, a'r aelodau yw'r pum CGS, Scope, Cymdeithas Tai Eryri, Yr Ymddriedolaeth Genedlaethol, Gwirfoddolwyr Ymddriedolaeth y Tywyssog, Urdd Gobaith Cymru a CGGC.

Ni ellir gwadu llwyddiant opsiwn y sector gwirfoddol. Bellach, ceir 125 o ddarparwyr lleoliadau cymeradwy yn y sector gwirfoddol sy'n cynnig dros 200 o lleoliadau. Hyd yn hyn, bu modd i 140 o bobl ifanc fanteisio ar lleoliadau o safon uchel a'r rheiny'n cynnwys dysgu sgiliau syrcas, gweithio mewn canolfannau gwerthu a sw, gweiryddu mewn swyddfa, gweithio ar radio lleol a rhoi hyfforddiant pêl-droed.



Pêl-droed yn y gymuned – Opsiwn Bargen Newydd y Sector Gwirfoddol.

# Datganiad i ddangos gweithgaredd

Mae CGGC yn diolch i'r mudiadau canlynol am eu cymorth:

Y Swyddfa Gymreig

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Bwrdd Elusennau'r Loteri  
Genedlaethol

Comisiwn y Milflwydd

AACI

Sefydliad Lloyds TSB ar gyfer Lloegr a Chymru

The Baring Foundation

Undeb Ewropeaidd

Cyngor Cefn Gwlad  
Cymru

CADW


	<b>Cronfeydd heb gyfyngiad</b> £	<b>Cronfeydd cyfyngiad</b> £	<b>Cyfanswm 1999</b> £	<b>Cyfanswm 1998</b> £
<b>INCWM A GWARIANT</b>				
Adnoddau a dderbyniwyd:				
Grantiau	525,807	4,709,247	5,235,054	2,914,755
Incwm gohiriedig	-	35,355	35,355	-
Incwm arall	326,809	109,338	436,147	276,788
Llog a enillwyd ac incwm arall o fuddsoddi	50,460	17,247	67,707	39,156
Gwirfoddoli yng Nghymru	-	530,000	530,000	530,000
Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd	903,076	5,401,187	6,304,263	3,760,699
Adnoddau a ddefnyddiwyd:				
Elusennol uniongyrchol	785,389	4,900,338	5,685,727	3,587,140
Rheoli a gweinyddu'r elusen	119,573	4,408	123,981	107,659
Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd	904,962	4,904,746	5,809,708	3,694,799
Adnoddau net a dderbyniwyd/(ddefnyddiwyd) yn y flwyddyn				
Colled ar Werthiant	(1886)	496,441	494,555	65,900
Buddsoddiadau				(976)
Elw/(colled) heb ei wireddu ar fuddsoddiadau	4,687		4,687	25,044
Darpariaethau nad oes eu hangen mwyach				
Newid yn y cronfeydd	2,801	496,441	499,242	89,968
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 1998	273,057	151,775	424,832	334,864
Darpariaethau nad oes eu hangen mwyach	90,670		90,670	
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 1999	366,528	648,216	1,014,744	424,832

# ariannol


Adnoddau a dderbyniwyd  
(Cronfeydd heb gyfyngedig)




Adnoddau a dderbyniwyd  
(Cronfeydd gyfyngedig)



Adnoddau a ddefnyddiwyd  
(Cronfeydd heb gyfyngedig)



Adnoddau a ddefnyddiwyd  
(Cronfeydd gyfyngedig)



# Mantolen

	<b>1999</b>	<b>1998</b>
	£	£
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>		
Buddsoddiadau	348,865	94,223
Dyledwyr a rhagdaliadau	154,652	190,526
Arian yn y banc	689,770	295,732
Arian wrth law	730	34
	1,194,017	580,515
<b>CREDYDWYR: Symiau yn ddyledus o fewn blwyddyn</b>		
	403,419	270,682
	790,598	309,833
	1,363,728	854,816
<b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>		
Darpariaeth ar gyfer dyledion a thaliadau		(75,000)
	1,363,728	779,816
<b>CRONFEYDD</b>		
Cronfeydd cyfyngedig	713,447	183,133
Cronfeydd cyfyngedig – Balansau dyledus	(65,231)	(31,358)
Cronfeydd anghyfyngedig	366,528	273,057
Cronfa gadw ailbrisio	348,984	354,984
	1,363,728	779,816

Gellir cael set lawn o'r adroddiadau a'r cyfrifon gan:

Vida C Davies  
Swyddog Cyllid  
CGC  
Llys Ifor  
Heol Crescent  
Caerffili CF83 1XL  
ffôn 01222 855100

## Iaelodau o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ym marn yr archwiliwyr, Messers Zeidman & Davis, mae'r crynodeb o'r cyfrifon a roddir yn y ddogfen hon yn gyson gyda'r cyfrifon cyflawn. Nid oedd dim amodau ynglwm wrth adroddiad yr archwiliwyr ar yr adroddiad cyflawn.


Zeidman a Davis, Cyfrifwyr Ardystiedig, Archwiliwyr Cofrestredig, Tŷ Lawrence, Caerffili.

# Aelodau'r Pwyllgor Gwaith 1998/1999

Cadeirydd Marjorie Dykins, OBE,	Aelod Unigol
Dirprwy Gadeirydd Jane Hutt	Aelod Unigol
Trysorydd Anrhydeddus	Aelod Unigol (tan fis Tachwedd 1998)
W. P. Kitson,	
Douglas E. Morris,	Aelod Unigol
Mohammed Akteruzzaman, MBE	Aelod Unigol
Sue Barlow	Dylunio Cymunedol Gwent
Phil Barrett (tan fis Tach 98)	Age Concern Cymru
Ceinwen Davies	Mudiad Ysgolion Meithrin
Stuart Etherington	Cyngor Cenedlaethol Cyrrf Gwirfoddol
S. Meryl Evans	Aelod Unigol
John Griffiths	Cyngor Gwasanaeth Ieuengtid Gwirfoddol Cymru
Dr. Madeleine Havard	Cyswllt Byd Natur a Chefn Gwlad Cymru
R. A. Hutchings	Aelod Unigol
Jazz Iheanacho	Cydraddoldeb Hiliol Cyntaf
Simon Jones	Canolfan Gydweithredol Cymru
Margaret Jervis, MBE	Prosiect Cymunedol Penygraig
Margaret Knight	Cymdeithas Clefyd Siwgr Prydain
Jenny Lewis (tan fis Gorff 1998)	BBC Plant Mewn Angen
David Maggs	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol y Fro
Ruth Marks	Busnes yn y Gymuned (Cymru)
D. Marc Phillips (tan fis Gorff 98)	Tenovus
Graham Price	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
John Puzeys	Shelter Cymru
Anne Marie Rogan	Rhwydwaith y Celfyddydau Gwirfoddol
Jenny Render (tan fis Tach 98)	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Drew Reith	Barnardo's
Margaret Sheppard	Cymdeithas y Canolfannau Cynghori Genedlaethol
Howard Sinclair	Mencap yng Nghymru
L. Mair Stephens	Cynulliad Menywod Cymru
Aziz Tharani	Aelod Unigol
Margaret Thorne, OBE, DL	Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Sirol Cymru
Catriona Williams	Plant yng Nghymru
Manon Ellis Williams	RSVP
Merlyn Williams (to Nov 98)	Cyngor Gwarchod Cefn Gwlad Cymru
Wendy Williams, MBE	Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Alistair Wood, MBE	Aelod Unigol

Cefnogir y pwyllgor  
gwaith gan dim rheoli a  
50 o staff yn gweithio o  
4 swyddfa yng Nghymru

# Pwyllgorau a chadeiryddion



## Ymgynghorydd cyfreithiol

Hanif Bhamjee Messrs. Crowley & Company

## Sylweddodion

David G. Evans Y Swyddfa Gymreig  
Helen Thomas Y Swyddfa Gymreig

## Ymgynghorwyr

Aileen Haskell Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol  
Roy A Norris Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol

## Archwiliwyr

Messrs. Zeidman & Davis

## Bancwyr

Banc Barclays ccc  
Banc y Co-op ccc  
Banc National Westminster Bank ccc